



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board



Iechyd gwell
Gofal gwell
Bywyd gwell

Better health
Better care
Better lives



Prif Swyddog Gweithredu

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Awst 2026

Croeso gan y Prif Weithredwr

Diolch i chi am gymryd yr amser i ymchwilio'r cyfle hwn i ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae hwn yn foment hollbwysig i'n sefydliad wrth i ni barhau i gryfhau diogelwch, ansawdd a chynaliadwyedd gofal i bobl Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, wrth lunio dyfodol gwasanaethau ledled De-orllewin Cymru.

Mae ein huchelgais yn glir: creu Bae Abertawe iachach, lle mae pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda, wedi'i gefnogi gan ofal o ansawdd uchel sy'n dosturiol, yn deg ac yn cael ei ddarparu mor agos at adref â phosibl. Mae ein cenhadaeth – Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywyd Gwell – yn adlewyrchu ein hymrwymiad i atal, ymyrraeth gynnar, gweithio mewn partneriaeth a gwelliant parhaus.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn Ne-orllewin Cymru, gyda thua 14,700 o staff, yn darparu gwasanaethau'r GIG ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ochr yn ochr â gwasanaethau trydyddol arbenigol i gleifion o ymhellach i ffwrdd. Mae ein strategaeth sefydliadol, Bae Abertawe Iachach, yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer sefydliad iechyd y boblogaeth sy'n canolbwyntio ar atal, lleihau anghydraddoldebau a gwella mynediad at ofal. Rydym wedi gwneud cynnydd pwysig, gan gynnwys gwelliannau mewn gofal wedi'i gynllunio, ond rydym hefyd yn glir ynglŷn â maint yr her sydd o'n blaenau: darparu gwasanaethau cynaliadwy, lleihau amrywiad, cryfhau gofal cymunedol a chyflawni cydbwysedd ariannol wrth barhau i wella ansawdd a phrofiad i gleifion a staff.

Rydym yn onest ynglŷn â'r heriau sy'n ein hwynebu. Fel systemau iechyd ledled Cymru a'r DU, rydym yn ymateb i alw cynyddol, pwysau ar y gweithlu, cyfyngiadau ariannol, anghydraddoldebau iechyd parhaus a'r angen i foderneiddio sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u darparu. Ar yr un pryd, mae gan Fae Abertawe gryfderau gwirioneddol: cydweithwyr ymroddedig, gwasanaethau clinigol cryf, rolau rhanbarthol ac arbenigol pwysig, partneriaid ymroddedig a chyfeiriad strategol clir ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Fel uwch arweinydd yn ein Bwrdd Iechyd, byddech chi'n ymuno â ni ar adeg pan fo arweinyddiaeth weladwy, sy'n cael ei harwain gan werthoedd, yn wirioneddol bwysig. Drwy Trefnu i Lwyddo, rydym yn alinio ein strwythurau, ein trefniadau arweinyddiaeth a'n model gweithredu â'n strategaeth, gan gryfhau atebolrwydd o'r Bwrdd i'r ward a galluogi mwy o benderfyniadau dan arweiniad clinigol. Ochr yn ochr â hyn, bydd Trawsnewid ar gyfer y Dyfodol – ein Cynllun Gwasanaethau Clinigol wedi'i adnewyddu – yn nodi model gofal sy'n gadarn yn glinigol ac yn gynaliadwy yn ariannol ar gyfer Bae Abertawe, wedi'i lywio gan dystiolaeth ar iechyd y boblogaeth, galw a chapasiti, gweithlu, seilwaith, gallu digidol, ansawdd, diogelwch, anghydraddoldebau a fforddiadwyedd.

Rydym yn chwilio am rywun sy'n dod â barn strategol, cyflymder, gostyngeddrwydd ac ymrwymiad cryf i werthoedd gwasanaeth cyhoeddus. Mae ein gwerthoedd sefydliadol – gofalu am ein gilydd, cydweithio a gwella bob amser – yn ganolog i'r ffordd rydym yn arwain, yn gwneud penderfyniadau ac yn cefnogi ein cydweithwyr. Bydd angen i chi fod yn gyfforddus yn arwain drwy gymhlethdod, gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a systemau, a'n helpu i wneud y dewisiadau anodd sy'n ofynnol i ddarparu gofal diogel, cynaliadwy ac o ansawdd uchel. Yr un mor bwysig, bydd angen i chi fod yn gydweithiwr cydweithredol: rhywun sy'n meithrin ymddiriedaeth, yn cefnogi timau, yn herio'n adeiladol ac yn cadw cleifion, staff a chymunedau wrth wraidd pob penderfyniad.

Os ydych chi wedi'ch cymell gan y cyfle i wneud gwahaniaeth parhaol mewn bwrdd iechyd cymhleth, uchelgeisiol ac sy'n cael ei yrru gan werthoedd, rwy'n gobeithio y byddwch chi'n ystyried gwneud cais. Diolch am eich diddordeb ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Rwy'n edrych ymlaen at glywed gennych chi.

Abigail Harris
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe



Amdanom ni

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gyllideb o £1.7bn ac mae'n cyflogi tua 14,700 o bobl, gan ein gwneud yn un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru. Rydym yn darparu gofal y GIG i boblogaeth o tua 390,000 ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.


Rydym yn cynnig ystod eang o wasanaethau trydyddol i gleifion ymhellach i ffwrdd, gan gynnwys llosgiadau a phlastigau, llawdriniaeth arennol, llawdriniaeth ar y galon a gofal newyddenedigol arbenigol.

Mae gennym dri ysbyty aciwt mawr – Treforys, Singleton a Chastell-nedd Port Talbot, ac rydym yn darparu gofal cymunedol ac iechyd meddwl, ynghyd â chomisiynu gwasanaethau gofal sylfaenol.

Rydym hefyd wedi sefydlu Cydbwyllgor Rhanbarthol De-orllewin Cymru (RJC) gyda BIP Hywel Dda i ddarparu arweinyddiaeth ar y cyd ar gyfer cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau ar draws rhanbarth ehangach de-orllewin Cymru.

Mae ein gweledigaeth strategol yn glir: Bae Abertawe iachach lle mae unigolion yn mwynhau bywydau hirach, hapusach a mwy annibynnol, gyda mynediad at y gofal sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt fwyaf. Rydym wedi ymrwymo nid yn unig i drin salwch, ond hefyd i gefnogi lles pobl drwy gydol eu bywydau.

Drwy weithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid, rydym yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, grymuso pobl i wneud dewisiadau gwybodus, a meithrin amgylcheddau lle gall pawb ffynnu'n gorfforol, yn feddyliol ac yn gymdeithasol.



Gweledigaeth, Cenhadaeth y Gwerthoedd

Ein Gweledigaeth

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ein gweledigaeth yw creu dyfodol iachach i bawb yn ein cymunedau lle mae pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda. Rydym yn rhagweld dyfodol lle mae pawb yn mwynhau bywydau hirach, iachach a hapusach, lle mae pobl yn cael eu cefnogi i aros yn egniol ac yn annibynnol cyhyd â phosibl a chael mynediad at ofal o ansawdd uchel pan fyddant ei angen fwyaf.

Ein huchelgais yw creu system sy'n canolbwyntio ar lesiant sy'n blaenoriaethu atal, ymyrraeth gynnar, ac yn rhagweld anghenion iechyd. Bydd gofal yn cael ei ddarparu mor agos i'r cartref â phosibl, gan leihau dibyniaeth ar wasanaethau ysbyty a galluogi adferiad cyflymach pan fydd angen gofal ysbyty. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gofal di-dor, teg, sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n ymateb i'r hyn sydd bwysicaf i unigolion a'u teuluoedd. Drwy bartneriaethau cryf â chleifion, cymunedau a rhanddeiliaid, byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac yn grymuso pobl i gymryd rheolaeth dros eu lles.

Rydym wedi ymrwymo i feithrin diwylliant o welliant parhaus, arloesedd a chynhwysiant lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u hysbrydoli i gyflawni eu gorau. Drwy ymchwil, addysg a chydweithio byddwn yn llunio gwasanaeth iechyd mwy craff a chynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn gwneud penderfyniadau cyfrifol sy'n blaenoriaethu cynaliadwyedd amgylcheddol, uniondeb ariannol, a chyfrifoldeb cymdeithasol. Byddwn yn cofleidio trawsnewid digidol, yn harneisio technoleg, ac yn ailgynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion newidiol ein poblogaeth gan sicrhau bod gofal yn ddiogel, yn effeithiol, ac yn deg.

Wedi'n gwreiddio mewn tosturi ac wedi'n gyrru gan ragoriaeth, rydym yn gweithio gyda'n gilydd tuag at ddyfodol lle mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei gydnabod fel enghraifft flaenllaw o ofal iechyd tosturiol a blaengar a lle mae Bae Abertawe yn lle lle mae gan bawb y cyfle i ffynnu.

Ein Cenhadaeth

Mae ein cenhadaeth yn syml ond yn bwerus: darparu **iechyd gwell, gofal gwell a bywyd gwell** i'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae hyn yn golygu helpu unigolion, teuluoedd a chymunedau i fyw bywydau iachach a mwyr boddhaus, atal salwch lle gallwn a'i drin yn gyflym, yn ddiogel ac yn dosturiol pan fo'n rhaid.

Mae **Iechyd Gwell** yn golygu canolbwyntio ar atal, addysg ac ymyrraeth gynnar. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid a'n cymunedau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd gwael, gan gefnogi pobl i wneud dewisiadau gwybodus, hyrwyddo lles meddwl, a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae **Gofal Gwell** yn ymwneud â rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn. Ein nod yw darparu gofal diogel, amserol a phersonol sy'n adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i bob unigolyn. Boed gartref, yn y gymuned, neu yn yr ysbyty, rydym yn ymdrechu i sicrhau bod profiad pob claf wedi'i seilio ar urddas, parch a rhagoriaeth.

Mae **Bywydau Gwell** yn adlewyrchu ein hymrwymiad ehangach i gefnogi lles y tu hwnt i ofal iechyd. Drwy gydweithio â'r sectorau gofal cymdeithasol, addysg, tai a gwirfoddol, ein nod yw creu'r amodau lle gall pobl ffynnu'n gorfforol, yn feddyliol ac yn gymdeithasol. Gyda'n gilydd, mae'r genhadaeth hon yn sbarduno pob penderfyniad a wnawn, wrth i ni adeiladu Bae Abertawe sy'n gryfach, yn iachach ac yn fwy cyfartal.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn cydnabod bod ein dylanwad uniongyrchol ar iechyd, lles ac ansawdd bywyd cyffredinol pobl yn gyfyngedig. Mae llawer o'r ffactorau sy'n llunio canlyniadau iechyd fel tai, incwm, addysg a chysylltiadau cymdeithasol y tu hwnt i ffiniau gwasanaethau iechyd. Felly mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar y meysydd lle gallwn wneud yr effaith fwyaf uniongyrchol ac ystyrlon, gan gynnwys ansawdd, hygyrchedd ac effeithiolrwydd gofal. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o benderfyniadau ehangach iechyd a lles y boblogaeth.

Byddwn yn defnyddio dangosyddion ehangach fel y tri isod i lywio ein blaenoriaethau, cryfhau partneriaethau, ac eiriol dros weithredu ar y cyd sy'n cefnogi bywydau a chymunedau iachach.



Ein Gwerthoedd

Ein gwerthoedd yw'r pethau sy'n diffinio ein diwylliant. Nhw yw'r ateb i'r cwestiwn: beth sy'n bwysig i ni? Maent yn gwasanaethu fel pwynt cyfeirio ar gyfer popeth a wnawn a sut rydym yn arwain ac yn rheoli'r sefydliad.

- **Gofalu am ein gilydd, ym mhob cyswllt dynol yn ein holl gymunedau ac ym mhob un o'n hysbytai.**

- ▶ Rydym yn gyfeillgar, yn gymwynasgar ac yn sylwgar. Rydym yn croesawu eraill gyda gwên
- ▶ Rydym yn gweld pobl fel unigolion; rydym yn gwneud y peth iawn i bob person ac yn trin pawb ag urddas a pharch
- ▶ Rydym yn garedig, yn dosturiol, yn amyneddgar ac yn empathig i anghenion eraill

- **Cydweithio, fel cleifion, teuluoedd, gofalwyr, staff a chymunedau fel ein bod ni bob amser yn rhoi cleifion yn gyntaf.**

- ▶ Rydym yn cyfathrebu'n agored ac yn onest ac yn egluro pethau'n glir
- ▶ Rydym yn cymryd amser i wrando, deall a chynnwys pobl; rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad pawb, ac rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i uno pethau er lles pobl.
- ▶ Rydym yn agored i adborth, ac yn gweithredu arno
- ▶ Rydym yn siarad os ydym yn pryderu

- **Gwella bob amser, fel ein bod ni ar ein gorau i bob claf ac i'n gilydd.**

- ▶ Rydym yn cadw pobl yn ddiogel ac yn darparu gwasanaeth effeithlon ac amserol
- ▶ Rydym yn broffesiynol ac yn dwyn ein hunain a'n gilydd i gyfrif
- ▶ Rydym yn dewis agwedd gadarnhaol, yn ceisio dysgu ac yn datblygu ein sgiliau a'n gwasanaethau'n barhaus.



Ein Strategaeth

Mae ein strategaeth sefydliadol yn disgrifio ein hymrwymiad i adeiladu dyfodol iachach i bawb yn ein cymunedau; dyfodol lle mae pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda, wedi'i gefnogi gan ofal o ansawdd uchel sy'n dosturiol, yn deg, ac yn cael ei ddarparu'n agos at adref.

Mae ein gweledigaeth yn glir: Bae Abertawe iachach lle mae unigolion yn mwynhau bywydau hirach, hapusach a mwy annibynnol, gyda mynediad at y gofal sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt fwyaf.

Mae BIP Bae Abertawe yn cwmpasu poblogaeth o tua 390,000 yn ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae gennym gyllideb o tua £1.7bn, ac fe wnaethom gyflogi tua 14,700 o bobl.


Mae gennym dri phrif ysbyty sy'n darparu ystod o wasanaethau: Treforys a Singleton yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ym Maglan, Port Talbot. Mae hefyd gennym ysbyty cymunedol

a chanolfannau adnoddau gofal sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau clinigol y tu allan i'r prif ysbytai.

Mae contractwyr gofal sylfaenol annibynnol yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o ofalu am ein poblogaeth ac mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu gwasanaethau gan feddygon teulu, fferyllwyr a deintyddion ar draws yr ardal. Mae gennym 45 o bractisiau meddygon teulu yn ardal y Bwrdd Iechyd, 58 practis deintyddol gan gynnwys orthodeintyddion, 32 practis optometreg a 91 fferyllfa gymunedol.

Darperir gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu mewn ysbytai a lleoliadau yn y gymuned. Darperir Gwasanaethau Iechyd Meddwl Fforensig i'r gymuned ehangach ar draws De Cymru gyfan.

Dysgwch fwy am ein strategaeth **yma:**



Ein Pobl a'n Cyllid



Gwariant ar wasanaethau
gofal iechyd sylfaenol

£227,549,000



Gwariant ar ofal iechyd gan
ddarparwyr eraill

£335,625,000



Gwariant ar ysbytai a
gwasanaethau iechyd yn y gymuned

£1,178,189,000



Dyraniad Adnoddau Cyfalaf

£53,964,000



Dyraniad adnoddau reffeniw

£1,375,303,000



GrossCostau Gweithredu Gros


£1,741,363,000

Aelod o staff


14,649




Proffil oedran



Rhywedd




Grŵp staff



32.7%	Nyrsio a Bydwreigiaeth Gofrestredig	4,795
7.2%	Meddygol a Deintyddol	1,061
2.7%	Gwyddonwyr Gofal Iechyd	402
7.8%	Ystadau ac Ategol	1,152
7.7%	Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Cyngbreiriol	1,136
18.2%	Gweinyddol a Chlerigol	2,673
19.9%	Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	2,923
3.4%	Gwyddonol a Thechnegol Ychwanegol	507

Ein Gwasanaethau

Gwasanaethau ar draws ein rhanbarth



- H1** Ysbyty Gorseinon
- H2** Ysbyty Treforys
- H3** Ysbyty Singleton
- H4** Ysbyty Castell-nedd Port Talbot




Gwasanaethau trydyddol

Enghreifftiau o ofal arbenigol a ddarperir ar sail ranbarthol:



Gan gynnwys gwasanaethau trydyddol, mewn un flwyddyn ar draws y Bwrdd Iechyd mae:



Ynglŷn â'r ardal

Dychmygwch gyfuno gyrfa uwch mewn bwrdd iechyd prifysgol mawr â'r cyfle i orffen pob diwrnod gwaith wrth y môr.

Dyna gynnig Bae Abertawe.

Dyma ran o Gymru lle mae dinas, arfordir a chefn gwlad yn dod at ei gilydd mewn ffordd na all llawer o leoedd ei chymharu. Mae Abertawe yn ddinas fywiog ac uchelgeisiol gyda synnwyr cryf o hunaniaeth, bwytai rhagorol, siopau annibynnol, orielau, theatrau, cerddoriaeth fyw a chwaraeon.

Mae ei glannau dŵr, ei marina a'i thraethau ar garreg y drws, tra bod Prifysgol Abertawe yn dod â golwg ryngwladol wirioneddol a chymuned ymchwil a myfyrwyr lewyrchus.

Yna mae Penrhyn Gŵyr. Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ddynodedig gyntaf Prydain yn dechrau bron ar garreg drws y ddinas, gan gynnig milltiroedd o arfordir ysblennydd, traethau arobryn, clogwyni dramatig, coetir a chefn gwlad agored. Mae Rhosili, Bae y Tri Chlogwyn ac Oxwich yn rhai o'r cyrchfannau sy'n gwneud hwn yn un o dirweddau arfordirol mwyaf nodedig y DU.



Y tu hwnt i'r arfordir, mae dyffrynnoedd, rhaeadrau a mynyddoedd De Cymru yn cynnig cyfleoedd rhagorol ar gyfer cerdded, beicio, beicio mynydd ac archwilio.

I deuluoedd, mae digon i argymell yr ardal. Mae Abertawe a'r cymunedau cyfagos yn cynnig dewis eang o ysgolion, tra bod Prifysgol Abertawe yn darparu presenoldeb addysg uwch cryf. Mae tai hefyd yn rhan bwysig o'r cynnig. O'i gymharu â llawer o rannau o dde Lloegr, mae eich arian yn mynd llawer ymhellach, boed eich bod yn chwilio am fflat dinas, cartref teuluol ger ysgolion da, eiddo arfordirol neu rywle wedi'i amgylchynu gan gefn gwlad.

Mae Bae Abertawe hefyd wedi'i gysylltu'n well nag y gallai ei leoliad arfordirol awgrymu. Mae'r M4 yn darparu mynediad hawdd ar draws De Cymru ac i Loegr, gyda Chaerdydd tua awr i ffwrdd a Bryste tua dwy awr ar y ffordd. Mae gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol yn cysylltu Abertawe â Chaerdydd, Bryste a Llundain, gan wneud y brifddinas yn hygyrch ar gyfer cyfarfodydd, diwylliant neu newid golygfeydd yn unig.

Yn bwysicaf oll, dyma le lle nad oes rhaid i uchelgais proffesiynol ac ansawdd bywyd gystadlu â'i gilydd. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gyflogwr a sefydliad gofal iechyd mawr, sy'n gwasanaethu cymunedau ledled Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ac yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid academiaidd, ymchwil a phartneriaid yn y sector cyhoeddus ehangach.

Felly os ydych chi'n chwilio am eich her arweinyddiaeth uwch nesaf, beth am ddewis rhywle yr hoffech chi fyw ynddo mewn gwirionedd?

Ym Mae Abertawe, gallwch wneud gwahaniaeth yn y gwaith – a, phum munud yn ddiweddarach, bod yn cerdded wrth ymyl y môr.



Swydd Ddisgrifiad

Adran:	Gweithrediaeth
Teitl Y Swydd:	Prif Swyddog Gweithredu
Oriau:	Amser llawn
Tâl:	Band 14: £161,062 - £172,543
Lleoliad:	Pencadlys Y Bwrdd Iechyd, Baglan
Yn Atebol I:	Prif Weithredwr

Perthnasoedd Allweddol:

- Bwrdd y BIPC
- yfarwyddwyr Gweithredol a Thîm Rheoli Gweithredol
- Cyfarwyddwyr Adrannol a Thimau Rheoli Adrannol
- Cyfarwyddwyr Clinigol a Thimau Rheoli Cyfarwyddiaethau
- Cyfarwyddwyr Cymunedol a chydweithwyr Gofal Sylfaenol
- Uwch Glinigwyr a Chlinigwyr ar draws pob sector
- Sefydliadau eraill y GIG
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Awdurdodau Lleol a chyflogwyr y Trydydd Sector
- Sefydliadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol
- Aelodau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a Fforwm y Gweithwyr Proffesiynol Iechyd
- Cynrychiolwyr staff ac undebau llafur/Fforwm Partneriaeth Lleol
- Cyrff a chymdeithasau proffesiynol
- Cleifion/defnyddwyr gwasanaeth a'u perthnasau/gofalwyr
- Llais
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Sefydliadau Addysg (uwch a phellach)
- Partneriaethau lleol a Byrddau Gwasanaeth Lleol
- Contractwyr Annibynnol
- Cyrff rheoleiddio a phroffesiynol
- Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol
- Pwyllgorau Cyngori
- ASau Cymru/ASau
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Y Cyfryngau

Diben y Swydd

- Mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl wasanaethau clinigol a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn cael eu darparu'n llwyddiannus ar draws y system, eu perfformiad a'u gwella'n barhaus, yn unol â **Bae Abertawe** lachach, strategaeth sefydliadol y Bwrdd Iechyd, a'i genhadaeth o **Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell**.
- Mae'r gwasanaethau clinigol sydd wedi'u cynnwys o fewn cyfrifoldebau'r swydd hon yn cynnwys gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu, gofal brys ac argyfwng, gofal wedi'i gynllunio, canser, diagnosteg a gwasanaethau eilaidd a thrydyddol mewn ysbytai.
- Mae rôl y Prif Swyddog Gweithredu yn ymgorffori rôl Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, gydag atebolrwydd gweithredol ar lefel y Bwrdd am sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu.

- Bydd y Prif Swyddog Gweithredu yn atebol i'r Bwrdd am ddarparu gwasanaethau clinigol a chymorth clinigol yn weithredol sy'n sail i gyfeiriad strategol y sefydliad, gyda ffocws allweddol ar ansawdd, diogelwch, perfformiad, cynaliadwyedd ariannol, profiad cleifion a chanlyniadau. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd gweithredol clir am gyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd yn effeithiol ar draws gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl.
- Bydd gan y Prif Swyddog Gweithredu gyfrifoldeb arweinyddiaeth dros reoli gwasanaethau clinigol yn effeithiol o ddydd i ddydd trwy fodel gweithredu grŵp gofal y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn trawsnewid trwy'r rhaglen Trefnu i Lwyddo o bedwar Grŵp Gwasanaeth i chwe Grŵp Gofal thematig, dan arweiniad clinigol, a fydd yn rhedeg ar ffurf gysgodol o fis Ionawr 2027 cyn mynd yn fyw ar 1 Ebrill 2027.
- Fel arweinydd ar gyfer perfformiad a chyflawniad gweithredol, bydd y Prif Swyddog Gweithredu yn gyfrifol am gyfrannu at y cynllun blynyddol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yng nghyd-destun Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd y Bwrdd Iechyd, gofynion adferiad ariannol a disgwyliadau uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru.
- Bydd y Prif Swyddog Gweithredu yn dal rôl gyflawni ganolog o amgylch bwrdd y Weithrediaeth, gan ddarparu gafael, cyflymder ac arweinyddiaeth weladwy ar gyfer adferiad gweithredol, gwelliant ariannol, dad-ddwysáu a chydgrynhoi gwelliannau perfformiad yn gynaliadwy.
- Bydd y Prif Swyddog Gweithredu yn cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr ac Uned Gyflawni'r Bwrdd Iechyd, sy'n gweithredu fel ystafell injan sefydliadol ar gyfer cyflawni, er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau gweithredol yn cael eu trosi'n gamau gweithredu clir, cerrig milltir, trefniadau atebolrwydd a gwelliant cynaliadwy.
- Darparu arweinyddiaeth wrth ddatblygu a gweithredu'r agenda gwella gwasanaethau gyffredinol, gan weithio gyda chydweithwyr gweithredol i sicrhau bod y sefydliad yn barod ac yn gallu cyflawni gwelliant cynaliadwy, gan gynnwys mewn meysydd sy'n destun goruchwyliaeth estynedig neu uwchgyfeirio.

Y prif gyfrifoldebau allweddol fydd:

- Darparu arweinyddiaeth weithredol a rheolaeth i'r Grwpiau Gofal, gan sicrhau bod ganddynt y gallu arweinyddiaeth a rheolaeth priodol i gyflawni eu hamcanion.
- Arwain y gwaith o sefydlu a gwreiddio trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer y Grwpiau Gofal er mwyn sicrhau bod gofynion y cynllun blynyddol, y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd yn cael eu cyflawni.
- Darparu perchnogaeth weithredol glir dros y ddarpariaeth, gan reoli'r tensiwn rhwng atebolrwydd cyfunol y Tîm Gweithredol a'r angen i weithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr y Grŵp Gofal ac uwch arweinwyr gweithredol i sicrhau'r ddarpariaeth.
- Adeiladu a chynnal perthnasoedd cryf a chredadwy ag arweinwyr y Grŵp Gofal, arweinwyr clinigol, cyfarwyddwyr corfforaethol, sefydliadau partner a rhanddeiliaid y system, gan sicrhau bod atebolrwydd yn glir a bod y ddarpariaeth yn cael ei chefnogi ar draws y system gyfan.
- Cynnal rhyngwyneb cryf ac effeithiol ag Uned Gyflawni'r Prif Weithredwr, gan sicrhau bod ei PMO, ei allu i drawsnewid, ei allu i wella ansawdd a'i allu i gyflawni yn galluogi Grwpiau Gofal i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, heb ddisodli atebolrwydd clir y Grŵp Gofal am gyflawni gweithredol.
- Sicrhau cydlynw effeithiol rota ar alwad weithredol y Bwrdd Iechyd trwy swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredu, gyda threfniadau clir ar gyfer cyflenwi, uwchgyfeirio, cyfathrebu, parhad busnes a hyfforddiant priodol i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y rota ar alwad.
- Arwain datblygiad dull system gyfan gydag amcanion a rennir ar draws Grwpiau Gofal, gyda phwyslais arbennig ar lwybrau diwygiedig, Cymuned trwy Ddylunio, atal, ymyrraeth gynnar a modelau gofal newydd sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd.

- Bydd y model Grŵp Gwasanaeth presennol yn cael ei ddisodli gan chwe Grŵp Gofal thematig a chlinigol o fis Ebrill 2027 ymlaen:
 - ▶ Meddygaeth
 - ▶ Llawfeddygaeth
 - ▶ Menywod, Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
 - ▶ Gwasanaethau Cymunedol Integredig
 - ▶ Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
 - ▶ Gwasanaethau Canser a Gwasanaethau Clinigol
- Arwain y newid gweithredol o'r model Grŵp Gwasanaeth presennol i'r model Grŵp Gofal yn y dyfodol, gan sicrhau atebolrwydd clir, arweinyddiaeth dan arweiniad clinigol, rhychwantau rheolaeth cymesur a threfniadau cymorth effeithiol.
- Drwy arweinyddiaeth y Grwpiau Gofal, arwain datblygiad atebion sefydliadol a gwasanaeth arloesol a ffyrdd o weithio i gefnogi amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Sicrhau bod gwelliannau llwyddiannus i wasanaethau yn cael eu mabwysiadu'n gyflym ac yn systematig ar draws y Bwrdd Iechyd, lle bo'n briodol.
- Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr Cyfarwyddwyr y Bwrdd sydd ag atebolrwydd proffesiynol, ansawdd, gweithlu, cyllid, strategaeth a gwella iechyd wrth yrru a chynnal rheoli perfformiad gweithredol a chyflawni safonau a thargedau cenedlaethol a lleol.
- Cydnabod rolau sicrwydd cydweithwyr cyfarwyddwyr gweithredol a gweithio ar y cyd â nhw i sicrhau bod y safonau gofynnol yn cael eu cyflawni.
- Datblygu a chynnal mecanweithiau cyfathrebu effeithiol ar draws Grwpiau Gofal gan sicrhau ymgysylltiad clinigwyr ar draws gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, eilaidd, iechyd meddwl ac arbenigol a grwpiau proffesiynol a staff eraill gan gynnwys Undebau Llafur.
- Adlewyrchu a hyrwyddo gwerthoedd y Bwrdd Iechyd ym mhob gweithgaredd, a chymryd rôl arweinyddiaeth weithredol wrth hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant a lles staff wrth ddarparu gwasanaethau a datblygu'r gweithlu.

Cyflenwi Gwasanaethau a Pherfformiad

- Sicrhau bod cynlluniau gweithredol yn cyd-fynd â chyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cyflawni cydbwysedd ariannol, osgoi gwastraff ac arfer stiwardiaeth ac atebolrwydd priodol dros arian cyhoeddus ac adnoddau eraill.
- Arwain, hwyluso a galluogi gweithio trawsffiniol a chyd-fynd â chyfeiriad a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Trwy weithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr eraill, sicrhau'r lefelau uchaf o ymgysylltiad a chyfranogiad clinigol a staff wrth ddatblygu a darparu'r holl wasanaethau.
- Arwain ar reoli perfformiad y Grwpiau Gofal, gan sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith a bod y ddarpariaeth yn cael ei rheoli drwy Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd y Bwrdd Iechyd.
- Herio, ysgogi a grymuso arweinwyr clinigol, rheolwyr a staff i gyflawni gwelliannau o ran ansawdd, diogelwch, mynediad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ym mhob maes gwaith.
- Sicrhau bod fframwaith o reolaethau effeithiol ar waith ac yn cael ei gymhwyso'n drylwyr o fewn Grwpiau Gofal, gan alluogi asesu a rheoli risg.
- Arwain a chefnogi Cyfarwyddwyr Grŵp Gofal a'u timau i ddarparu atebion system gyfan sy'n gwella canlyniadau i gleifion a'r boblogaeth ehangach.
- Gyrru perfformiad yn unol â chynlluniau'r Bwrdd Iechyd, gan greu trefniadau perfformiad ac atebolrwydd cadarn sy'n cefnogi cyflawni targedau cenedlaethol a lleol, disgwyliadau cynllunio Llywodraeth Cymru a gofynion dad-ddwysáu.
- Arwain y cyfraniad gweithredol at leihau'r gyfradd rhedeg, gwella'r sefyllfa ariannol, cyflawni gofynion dad-ddwysáu a sicrhau gwelliant cynaliadwy mewn meysydd o bwysau gweithredol, gan gynnwys gofal brys ac argyfwng.

- Cydgrynhoi ac ymestyn gwelliannau gweithredol, gan sicrhau bod enillion yn cael eu hymgorffori, bod amrywiad yn cael ei leihau a bod y sefydliad yn parhau â'i daith tuag at berfformiad uchel.
- Defnyddio gwybodaeth yr Uned Gyflawni, rheoli rhaglenni, trawsnewid a chymorth gwella ansawdd i gryfhau gafael weithredol, nodi rhwystrau i gyflawni, cyflymu camau adfer a chefnogi taith dad-ddwysáu'r Bwrdd Iechyd.
- Sicrhau cynllunio busnes ac ariannol cadarn i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, wedi'i reoli yn unol â pholisi, gweithdrefn a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog perthnasol y Bwrdd Iechyd.
- Darparu gofal diogel, effeithlon ac effeithiol drwy'r Grwpiau Gofal, gan rymuso arweinwyr clinigol a gweithredol i weithredu newid a gwneud penderfyniadau yn ôl yr angen o fewn trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y cytunwyd arnynt.
- Gyrru ymlaen a llunio ymddygiadau, gan feithrin diwylliant o newid, arloesedd, gwaith tîm, gwelliant parhaus ac atebolrwydd a rennir sy'n cefnogi uchelgais y Bwrdd Iechyd i fod yn sefydliad cynaliadwy o ansawdd uchel.
- Gwneud argymhellion heriol ar flaenoriaethau, rheoli amwysedd a chymhlethdod i greu'r weledigaeth ar gyfer symud y sefydliad yn ei flaen. Bydd barn y Prif Swyddog Gweithredu yn hanfodol wrth helpu'r sefydliad i reoli risg, ymateb i gynnydd a chefnogi'r weledigaeth strategol.
- Defnyddio ymchwil, tystiolaeth, deallusrwydd iechyd y boblogaeth a data perfformiad i gefnogi gwasanaethau clinigol, cynllunio'r gweithlu a buddsoddi ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys modelau gofal newydd a ddarperir yn agosach at adref.
- Cyfrannu at weledigaeth GIG Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd integredig, o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf, ac at gyflawni strategaeth sefydliadol y Bwrdd Iechyd, Bae Abertawe Iachach.

Llywodraethu ac Ansawdd

- Datblygu trefniadau a chapasiti sefydliadol effeithiol sy'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei amcanion strategol o fewn fframwaith llywodraethu cryf ac effeithiol.
- Sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i ymdrin â materion llywodraethu ar draws yr holl wasanaethau, gan sicrhau bod y safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol a chlinigol yn cael eu cynnal drwy'r Grwpiau Gofal. Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol, Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Cleifion, Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Gofal Iechyd a chydweithwyr gweithredol eraill i fynd i'r afael â materion llywodraethu clinigol ar draws y system gyfan.
- Mewn partneriaeth â chydweithwyr gweithredol, sicrhau cydlynid rhwng yr agendâu corfforaethol, clinigol a phroffesiynol lle'r nod yn y pen draw yw diogelwch ac ansawdd gwasanaeth i ddefnyddwyr a gwelliant parhaus ym mhrofiad y claf.
- Sicrhau bod pob risg yn cael ei nodi a'i rheoli'n briodol i leihau niwed. Hysbysu'r Prif Weithredwr am unrhyw broblem gwasanaeth neu ofal a allai fod yn niweidiol i ddiogelwch cleifion, ansawdd, perfformiad, cynaliadwyedd ariannol neu enw da'r sefydliad.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn cael cyngor a sicrwydd priodol mewn perthynas â dyletswyddau statudol y Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, gan gynnwys llywodraethu, perfformiad, ansawdd a chynaliadwyedd y gwasanaethau hynny.
- Darparu arweinyddiaeth a sicrwydd mewn perthynas â meysydd sy'n destun uwchgyfeirio neu oruchwyliaeth well gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys gofynion cyflawni gweithredol, perfformiad, ansawdd, cyllid ac adferiad sy'n berthnasol i bortffolio'r Prif Swyddog Gweithredu.

Arwain a Rheoli Staff

- Darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol trwy ysbrydoli eraill gyda gweledigaeth a chyfeiriad strategol clir ar gyfer perfformiad gweithredol a darparu gwasanaethau.
- Sicrhau llinellau atebolrwydd clir a rheolaeth effeithiol ar bob adroddiad uniongyrchol, yn unol â pholisïau ac arferion cyflogaeth y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys recriwtio, dethol, rheoli perfformiad, nodi anghenion hyfforddi a datblygu, a gosod amcanion blynyddol yn unol ag amcanion y Bwrdd Iechyd, y Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd a'r Broses Adolygu Datblygiad Gwerthuso Perfformiad.
- Arwain, hyfforddi, datblygu a chadw tîm uwch reolwyr perfformiad uchel gyda phwyslais ar feithrin capasiti a gallu ar draws model y Grŵp Gofal yn y dyfodol.
- Sicrhau bod trefniadau cysylltu a rheoli effeithiol yn bodoli mewn perthynas â chontractwyr annibynnol a'u staff mewn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Fferyllfa Gymunedol ac Optometreg, gan gydnabod a deall cymhlethdod eu statws cytundebol.
- Sicrhau bod PADR wedi'i ymgorffori o fewn gwasanaethau, gan gefnogi cydymffurfiaeth lawn i bob aelod o staff cymwys.
- Herio dulliau confensiynol i hybu newid, a dangos ymrwymiad i greu diwylliant dysgu o fewn y sefydliad sy'n sicrhau gwelliant parhaus
- Darparu arweinyddiaeth weladwy ar gyfer newid sefydliadol wrth i'r Bwrdd Iechyd weithredu'r rhaglen Trefnu i Lwyddo, gan gynnwys y newid i fodel grŵp gofal a datblygu methodoleg sefydliadol gyson ar gyfer gwella, newid diwylliant a darparu gwasanaethau.
- Cynnal a gwella'ch gwybodaeth, eich dysgu a'ch gallu eich hun er mwyn rhagori yn y rôl, a gosod esiamp i eraill.
- Cadw at y safonau a nodir yng Nghod Ymddygiad y GiG ar gyfer Rheolwyr a gweithredu bob amser mewn modd sy'n adlewyrchu ac yn hyrwyddo gwerthoedd y Bwrdd Iechyd.

Llysgennad ar gyfer y BIP

- Fel un o'r gadwyn o uwch arweinwyr yng Nghymru, cyfrannu at agenda sefydliadol iechyd ehangach GiG Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Darparu arweinyddiaeth system gyfan ar draws partneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan ddefnyddio natur integredig y Bwrdd Iechyd, cysylltiadau academiaidd a pherthnasoedd partner ehangach i gryfhau darpariaeth a gwelliant.
- Bydd y Prif Swyddog Gweithredu yn gweithredu fel llysgennad i'r BIP a GiG Cymru.

Arfarnu Perfformiad

- Bydd perfformiad yn cael ei werthuso a chytunir ar amcanion yn flynyddol gyda Phrif Weithredwr y BIP yn unol â Fframwaith

Manyleb y Person

Cymwysterau/Datblygiad Hanfodol

- Addysg i o leiaf lefel Gradd Meistr, cymhwyster neu lefel o brofiad cyfatebol
- Tystiolaeth o Ddatblygu Rheolaeth ac Arweinyddiaeth wedi'u hanelu at swyddi uchel iawn
- Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ac ymrwymiad amlwg iddo gyda phortffolio DPP gweithredol ac amrywiol

Profiad a Gwybodaeth Hanfodol

- Profiad profedig o weithio ar lefel strategol a chyfrannu ar lefel uwch iawn, yn agos at neu ar lefel y Bwrdd mewn sefydliad cymhleth mawr, yn ddelfrydol o fewn y GIG ac ar draws systemau gofal iechyd cyfan.
- Enw rhagorol a llwyddiannau amlwg ar lefel cyfarwyddwr/lefel uchel iawn, gyda hanes profedig o gynhyrchu canlyniadau o ansawdd uchel wrth reoli ac arwain gweithrediadau mewn sefydliad mawr, o fewn y GIG yn ddelfrydol.
- Profiad sylweddol o ddarparu arweinyddiaeth weithredol a sicrwydd ar lefel y Bwrdd ar gyfer gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, neu bortffolios gweithredol system gyfan cyfatebol sy'n cynnwys dyletswyddau statudol a threfniadau partneriaeth cymhleth.
- Profiad o reoli adnoddau a chyllidebau sylweddol a hanes amlwg o sicrhau cydbwysedd ariannol, cynaliadwyedd a gwerth am arian.
- Profiad o gynllunio gweithredol a chapasiti i gwrdd â thargedau perfformiad sefydliadol.
- Dealltwriaeth o ymgysylltiad clinigol gyda thystiolaeth o fethodoleg a phrofiad o weithredu.
- Profiad o sefydlu a chymhwyso systemau rheoli perfformiad cadarn a fframweithiau atebolrwydd.
- Tystiolaeth o osod a chyflawni targedau uchelgeisiol y gellir eu cyflawni ac o arwain a gweithredu atebion arloesol, a rhaglenni newid a moderneiddio cymhleth a gynlluniwyd i wella ansawdd a gwasanaethau o fewn cyfyngiadau ariannol tynn.
- Dealltwriaeth o drefniadau cynllunio, perfformiad, uwchgyfeirio ac atebolrwydd GIG Cymru, gan gynnwys rôl cynlluniau blynyddol, Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a fframweithiau perfformiad sefydliadol.
- Dealltwriaeth o agenda moderneiddio'r GIG, a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu a gweithredu datblygiadau strategaeth a gwasanaeth.
- Gwybodaeth fanwl am bolisiâu iechyd allweddol, amcanion a'r fframwaith gweithredu cenedlaethol.
- Dealltwriaeth o'r cyd-destun strategol a pholisi ehangach ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru.
- Profiad o ddatblygu a gweithredu strategaethau corfforaethol gyda hanes o lwyddiannau o ran cyflawni yn erbyn targedau cenedlaethol a lleol.
- Profiad o arwain neu gyfrannu at ailgynllunio sefydliadol ar raddfa fawr, newid model gweithredu neu raglenni trawsnewid.
- Profiad o arwain sefydliadau neu wasanaethau drwy deithiau gwella, adferiad cyflym, dad-ddwysáu neu welliant cynaliadwy, gyda thystiolaeth o symud gwasanaethau tuag at berfformiad uchel.
- Profiad o weithio'n effeithiol gyda swyddogaethau cyflawni corfforaethol, rheoli rhaglenni, trawsnewid neu wella ansawdd i ddarparu gafael, cyflymder, sicrwydd a chefnogaeth ar gyfer blaenoriaethau sefydliadol cymhleth, gan gynnwys atebolrwydd gweithredol clir o fewn timau cyflawni.

Galluoedd Hanfodol a Rhinweddau Personol

- Gallu nodi a rheoli materion a blaenoriaethau allweddol.
- Sgiliau rhesymu dadansoddol a beirniadol cryf.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gan gynnwys sgiliau ysgrifenedig, llafar a chyflwyno ar lefel y Bwrdd.
- Lefel uchel o gymhwysedd rheoli, gan gynnwys y gallu i reoli ac arwain amgylchedd proffesiynol cymhleth a deinamig.
- Sgiliau arwain a dylanwadu rhagorol a hygyddedd proffesiynol amlwg.
- Craffter masnachol a busnes cryf, gan ddeall effaith effeithlonrwydd gweithredol ar berfformiad refeniw cyffredinol.
- Sgiliau profedig o ran gwella a moderneiddio gwasanaethau, gan gynnwys defnyddio methodolegau gwella cydnabyddedig.
- Sgiliau rheoli rhaglenni a phrosiectau.
- Yn gallu datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gyda grwpiau proffesiynol ac uwch reolwyr yn y sefydliad ac mewn asiantaethau eraill.
- Yr egni, y gwydnwch, y stamina a'r brwdfrydedd sydd eu hangen ar Gyfarwyddwr Gweithredol mewn Bwrdd Iechyd Prifysgol mawr, gyda'r gallu profedig i osod a chyrraedd targedau uchelgeisiol a monitro yn erbyn targedau.
- Ymrwymiad i werthoedd gwasanaeth cyhoeddus.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth helaeth o'r GIG, ac yn wleidyddol graff, gweithio'n effeithiol gyda dylanwadwyr allweddol i gyflawni ar draws y system gofal iechyd gyfan.
- Yn gallu adnabod y grwpiau buddiant a'r rhanddeiliaid ehangach o fewn y Bwrdd Iechyd, a gweithio'n sensitif i oresgyn eu safbwyntiau a'u buddiannau gwahanol.
- Arloesi a gweledigaeth, gan gynnwys y gallu i adeiladu galluoedd sefydliadol, sefydlu gweledigaeth a chyfeiriad strategol clir a throsi hyn yn ganlyniadau llwyddiannus.
- Hyblygrwydd deallusol, gan gynnwys y gallu i ddeall manylion gweithredol a gweledigaethau strategol ehangach, ac i fynegi'r rhain i eraill; a'r gallu i ymdopi ag amwysedd a pherfformio trwy ansicrwydd.
- Y gallu i arwain trwy newid sefydliadol sylweddol, gan gynnwys cyfnodau o uwchgyfeirio, craffu a phontio i fodelau gweithredu newydd.
- Arddull arweinyddiaeth weladwy, egniol ac arloesol, gyda'r gallu i greu hyder, meithrin hygyddedd yn gyflym a gweithredu'n effeithiol ar draws amgylcheddau arweinyddiaeth Weithredol, gweithredol, clinigol ac arweinyddiaeth system.

Strwythur Ymddygiadol

- **GIG Cymru Strwythur Cymhwysedd Ymddygiadol**

Sut i wneud cais

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **20 Medi 2026**.

Dylai ceisiadau gynnwys:

- **Llythyr eglurhaol** yn egluro pam mae'r penodiad o ddiddordeb i chi, sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf penodi a beth yn benodol y byddech chi'n ei gyfrannu at y swydd (yn ddelfrydol dim mwy na dwy dudalen).
- **Curriculum Vitae (CV)** gyda chymwysterau addysg a phroffesiynol a hanes cyflogaeth llawn. Cofiwch gynnwys rhifau ffôn cyswllt yn ystod y dydd a gyda'r nos a chyfeiriadau e-bost. Dylai'r CV gynnwys enwau a manylion cyswllt tri chanolwr sy'n cwmpasu'r chwe blynedd diwethaf o gyflogaeth. Ni chymerir cyfeiriadau heb eich caniatâd (**dim mwy na thair tudalen yn ddelfrydol**).

Bydd angen y cod cyfeirio canlynol arnoch:
SBUHB-COO-0826

Bydd pob cais yn cael ei gydnabod.

Am sgwrs anffurfiol am y swydd cysylltwch â Finn McNulty yn ein partneriaid recriwtio, Hunter Healthcare drwy e-bost: fmcnulty@hunterhealthcare.com neu ffôn: **07966 006091**

[CLICIWCH YMA I WNEUD CAIS AR-LEIN ➔](#)

DYDDIADAU ALLWEDDOL:

Dyddiad cau ceisiadau	20 Medi 2026
Rhestr hir yn dechrau yn ystod yr wythnos	23 Medi 2026
Rhestr fer yn dechrau yn ystod yr wythnos	13 Hydref 2026
Sesiynau a chyfweliadau rhanddeiliaid yr wythnos	6 Tachwedd 2026





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board



Iechyd gwell
Gofal gwell
Bywyd gwell

Better health
Better care
Better lives



Floor 2, Berkshire House
168-173 High Holborn, London WC1V 7AA

T: 020 7935 4570
E: enquiries@hunter-healthcare.com